OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 1844

# Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiad Ariannol) (Cymru) 2015

## RHAN 3

### Trin a chyfrifo incwm

**Cyfrifo incwm**

**13.**—(1) Rhaid cyfrifo incwm A ar sail wythnosol drwy benderfynu, yn unol â'r Rhan hon, swm wythnosol cyfanswm incwm A.

(2) At ddibenion paragraff (1) mae incwm yn cynnwys cyfalaf a drinnir fel incwm o dan reoliad 16 ac incwm tybiannol o dan reoliad 17.

**Enillion sydd i'w diystyru**

**14.**—(1) Wrth gyfrifo incwm A at ddibenion yr asesiad ariannol, rhaid diystyru enillion sy'n deillio o gyflogaeth fel enillydd cyflogedig neu enillydd hunangyflogedig.

(2) At ddibenion y rheoliad hwn—

(a) mae i enillion mewn perthynas ag enillydd cyflogedig yr un ystyr ag—

(i) yn rheoliad 35 o Reoliadau Budd-dal Tai 2006(**1**);

(ii) yn rheoliad 35 o Reoliadau Budd-dal Tai (Personau a gyrhaeddodd yr oedran cymwys ar gyfer credyd pensiwn y wladwriaeth) 2006 (enillion enillwyr cyflogedig)(**2**), pan fo'r enillydd wedi cyrraedd yr oedran cymhwyso ar gyfer credyd pensiwn y wladwriaeth; a

(b) mae i enillion mewn perthynas ag enillydd hunangyflogedig yr un ystyr ag yn rheoliad 37 o'r Rheoliadau Cymhorthdal Incwm (enillion enillwyr hunangyflogedig).

**Symiau eraill sydd i'w diystyru**

**15.** Wrth gyfrifo cyfanswm incwm A at ddibenion yr asesiad ariannol, rhaid diystyru unrhyw swm, pan fo'n briodol, a bennir yn Rhan 1 o Atodlen 1, yn unol â Rhan 2 o'r Atodlen honno.

**Cyfalaf a drinnir fel incwm**

**16.**—(1) Rhaid trin fel incwm unrhyw gyfalaf sy'n daladwy i A mewn rhandaliadau sydd heb eu casglu ar y dyddiad y daw A yn atebol gyntaf i dalu am y gofal a chymorth (neu pan fo, neu pan fydd, A yn cael taliadau uniongyrchol, yn atebol gyntaf i gyfrannu neu wneud ad-daliadau tuag at y gost o sicrhau darpariaeth o'r gofal a chymorth), os yw agregiad y rhandaliadau sydd heb eu casglu a swm cyfalaf A fel y'i cyfrifir yn unol â Rhan 4 yn fwy na'r swm a bennir yn rheoliad 41(1) o'r Rheoliadau Cymhorthdal Incwm (cyfalaf a drinnir fel incwm).

(**1**) O.S. 2006/213. Diwygiwyd rheoliad 35 gan O.S. 2007/2618, 2009/2655, 2014/591 a 3255.
(**2**) O.S.2006/214. Diwygiwyd rheoliad 35 gan O.S. 2009/2655, 2012/757, 2014/591 a 3255.

(2) Rhaid trin unrhyw daliad a geir o dan flwydd-dal fel incwm.

(3) Rhaid trin unrhyw enillion, i'r graddau nad ydynt yn daliad o incwm, fel incwm.

(4) Yn ddarostyngedig i baragraff (5), rhaid trin A fel pe bai'n meddu unrhyw gyfalaf a delir neu sy'n ddyladwy i awdurdod lleol gan drydydd parti yn unol â chytundeb rhwng yr awdurdod lleol a'r trydydd parti, a wnaed mewn cysylltiad ag atebolrwydd A i dalu, cyfrannu neu wneud ad-daliadau i'r awdurdod lleol tuag at gost llety a ddarperir neu a sicrheir ar gyfer A o dan y Ddeddf.

(5) Rhaid peidio â thrin A fel pe bai'n meddu unrhyw daliad gwirfoddol o gyfalaf a wneir gan drydydd parti i awdurdod lleol at y diben o dalu unrhyw ôl-ddyledion o'r taliadau, cyfraniadau neu ad-daliadau y gofynnodd yr awdurdod lleol amdanynt gan A am lety a ddarparwyd neu a sicrhawyd o dan y Ddeddf.

(6) Pan fo cytundeb neu orchymyn llys yn darparu bod taliadau i'w gwneud i A o ganlyniad i unrhyw anaf personol a achoswyd i A, a bod y cyfryw daliadau i'w gwneud yn gyfan gwbl neu'n rhannol ar ffurf taliadau cyfnodol, rhaid i unrhyw daliadau cyfnodol o'r fath a gaiff A, i'r graddau nad ydynt yn daliad o incwm, gael eu trin fel incwm.

### Incwm tybiannol

**17.**—(1) Rhaid trin A fel pe bai'n meddu unrhyw incwm y mae A wedi amddifadu ei hunan ohono at y diben o leihau'r swm y mae A yn atebol i'w dalu, neu y gallai fod yn atebol i'w dalu tuag at y gost o ddiwallu, neu sicrhau darpariaeth o ofal a chymorth ar gyfer diwallu, anghenion A.

(2) Rhaid trin A fel pe bai'n meddu unrhyw incwm y byddid yn ei drin fel incwm a feddid gan hawlydd cymhorthdal incwm o dan reoliad 42(2) i (4A) o'r Rheoliadau Cymhorthdal Incwm (incwm tybiannol).

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), rhaid trin A fel pe bai'n meddu unrhyw incwm a delir neu sy'n ddyladwy i awdurdod lleol gan drydydd parti yn unol â chytundeb rhwng yr awdurdod lleol a'r trydydd parti, a wnaed mewn cysylltiad ag atebolrwydd A i dalu, cyfrannu neu wneud ad-daliadau i'r awdurdod lleol tuag at gost llety a ddarperir neu a sicrheir ar gyfer A o dan y Ddeddf.

(4) Rhaid peidio â thrin A fel pe bai'n meddu unrhyw daliad gwirfoddol o incwm a wneir gan drydydd parti i awdurdod lleol at y diben o dalu unrhyw ôl-ddyledion o'r taliadau, cyfraniadau neu ad-daliadau y gofynnodd yr awdurdod lleol amdanynt gan A am lety a ddarparwyd neu a sicrhawyd yn unol â'r Ddeddf.